Polisi Llên-ladrad Grŵp CAVC

Ymrwymiad

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i annog rhagoriaeth a gonestrwydd academaidd gan ddysgwyr a hyder ymhlith pawb sydd ynghlwm â ni, gan gynnwys rhieni, cyflogwyr, cyrff dyfarnu a sefydliadau AU. I gyflawni hyn, nid yw'r Grŵp yn caniatáu llên-ladrad.

Diben y polisi hwn yw manylu llên-ladrad fel camarfer tybiedig ar ran ymgeiswyr, staff y ganolfan ac unrhyw rai eraill sydd ynghlwm â rheoli'r gwaith o ddarparu cymwysterau, a chymryd camau gweithredu priodol i gynnal gonestrwydd y cymwysterau.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff sydd mewn swydd addysgu, asesu neu gefnogi dysg yn y Grŵp.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Datganiadau'r Polisi

Diffiniad

Llên-ladrad yw dysgwr yn defnyddio gwaith neu syniad unigolyn arall a'i gyflwyno fel ei waith gwreiddiol ef neu hi ei hun. Gall y gwaith fod yn waith ysgrifenedig, cerddoriaeth, rhaglen gyfrifiadur, dawns, darlun, etc.

Gall ffynhonnell y gwaith hwnnw fod yn:

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022

- Waith wedi'i gyhoeddi, e.e. cyfrol, cylchgrawn, drama, ffotograff, paentiad, cerddoriaeth, etc.
- Gwaith heb ei gyhoeddi, e.e. nodiadau'r athro, taflenni dosbarth, gwaith dysgwr arall (naill ai gyda chaniatâd neu hebddo) a deunydd o'r We.

Mae defnyddio gwaith rhywun arall yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn heb roi cydnabyddiaeth iddo yn llên-ladrata a chamymddwyn academaidd. Weithiau mae achosion o lên-ladrad yn anfwriadol o ganlyniad i sgiliau ymchwil gwael a diffyg dealltwriaeth o gonfensiynau cyfeirio. Weithiau caiff ei wneud yn fwriadol. **Yn y naill achos, nid yw'n dderbyniol a dylid mynd i'r afael ag ef.**

Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i:

- Sefydlu gweithdrefnau i'w dilyn pe drwgdybir achos o lên-ladrad.

- Sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cymryd i ystyriaeth y rheiny sydd wedi'u gosod gan gyrff dyfarnu, sefydliadau Addysg Uwch a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

- Hyfforddi'r holl staff perthnasol mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn a ffyrdd o adnabod achosion o lên-ladrad.

- Darparu gwybodaeth i'r holl ddysgwyr i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o lên-ladrad a sut i osgoi llên-ladrata yn eu gwaith.

- Cynnig cefnogaeth i ddysgwyr sydd â sgiliau lefel is i'w galluogi nhw i ddatblygu sgiliau ymchwil i sicrhau nad ydynt yn llên-ladrata yn anfwriadol.

- Cofnodi a monitro pob achos o lên-ladrad.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a phob math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu'r Swyddfa Dyfarnwyr AU Annibynnol (nid rhestr gynhwysfawr mo hon).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sefydlu a monitro systemau adnabod llên-ladrad, e.e. Turnitin
- Monitro ac ymateb i achosion o lên-ladrad yn eu hadrannau, sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Ymddwyn yn unol â'r Polisi a'r weithdrefn hon os ydynt yn dyst i lên-ladrad.
- Sefydlu a monitro systemau adnabod llên-ladrad, e.e. Turnitin.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau eu corff dyfarnu perthnasol neu Sefydliad Addysg Uwch.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr am y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon gyda staff addysgu neu gefnogi i'w galluogi nhw i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Bydd canllawiau perthnasol y Sefydliad Addysg Uwch, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r corff dyfarnu yn cael eu hystyried.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.

Rhoddir cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â llên-ladrad i'r holl ddysgwyr waeth beth fo'r iaith y penderfynant gyflwyno eu gwaith ynddi.
Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022

Cyfeiriadau

Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Polisïau

Dysgu, Addysgu ac Asesu
Camarfer a Chamweinyddu
Ansawdd
Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
Strategaeth Sgiliau
Bwlio ac Aflonyddu Dysgwyr
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gweithdrefnau

Llên-ladrad
Camarfer Tybiedig mewn Arholiadau ac Asesiadau'r CGC
Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
Bwlio ac Aflonyddu
Datgelu
Sefydliadau Addysg Uwch perthnasol
Asesiadau ac Apeliadau

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo:	**7 Gorffennaf 2020**	**Rheolwr Atebol:**	**Deon Gwella Ansawdd**
Cymeradwywyd Gan:	**Y Prif Fwrdd**	**Arweinydd Gweithredol:**	**Dirprwy Bennaeth**
Dyddiad Adolygu Nesaf:	**Gorffennaf 2022**	**Hygyrch i Fyfyrwyr:**	**Ydy**

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022